

## Gweithgarwch ychwanegol

### 1. Darllenwch y darn canlynol yn uchel a rhowch ychydig funudau i bobl feddwl amdano.

'Chi ydy halen y ddaear. Ond pan mae'r halen wedi colli ei flas pa obaith sydd i'w wneud yn hallt eto? Dydy e'n dda i ddim ond i'w daflu i ffwrdd a'i sathru dan draed.

'Chi ydy'r golau sydd yn y byd. Mae'n amhosib cuddio dinas sydd wedi'i hadeiladu ar ben bryn. A does neb yn goleuo lamp i'w gosod o dan fowlen! Na, dych chi'n gosod lamp ar ffwrdd er mwyn iddi roi golau i bawb yn y tŷ. Dyna sut dylai'ch golau chi ddisgleirio, er mwyn i bobl foli'ch Tad yn y nefoedd wrth weld y pethau da dych chi'n eu gwneud.' (Mathew 5:13-16 beibl.net)

*Beth mae'r darn yma'n dweud wrthyh chi am efengylu?*

2. Clywsom yn y ffilm gan un gweinidog sydd wedi gosod targed i'w gapel o ran cynulleidfa posibl a sut y gellid cyrraedd y gynulleidfa honno. Beth fyddai'r gynulleidfa darged ar gyfer eich capel chi? Beth fyddech chi'n gallu ei wneud er mwyn eu cyrraedd?

3. Gofynnwch i aelodau'r grŵp feddwl am emynau sy'n cyfleu orau iddyn nhw beth yw efengylu.

4. 'Cymaint rwy'n dyheu am weld pennod newydd o efengylu ... yn llawn brwdfrydedd, llawenydd, haelioni, dewrder a chariad diderfyn.'

*Trafodwch y geiriau hyn o eiddo'r Pab Francis.*

**Noder:** Bydd y ffilm nesaf ar gael i'w lawrlwytho o wefan yr Undeb yn ystod mis Medi 2019.

## Undeb yr Annibynwyr Cymraeg Cynllun Y Ffordd



### Efengylu

*Blwyddyn 3, Rhan 2  
Haf 2019*

### *Sut i ddefnyddio'r deunydd*

Mae'r ffilm 'EFENGYLU' yn cynnwys pedair pennod sy'n amrywio o ran eu hyd. Awgrymw'n eich bod yn rhannu'r gwylio fel y bo'n addas i chi. Cynhwysir hefyd nifer o gwestiynau ar gyfer pob pennod unigol, ond efallai fod yna gwestiynau eraill fydd o ddiddordeb i'r grŵp.

**Pennod 1:** *Beth yw efengylu?*

**Pennod 2:** *Efengylu yng Nghymru heddiw*

**Pennod 3:** *Yr her wrth efengylu*

**Pennod 4:** *Dulliau o efengylu*

Ar dudalen 4 o'r daflen hon mae nifer o weithgareddau eraill i helpu llenwi'r sesiynau, ond cyn gorffen pob sesiwn byddai'n dda i'r grŵp drafod y cwestiwn:

***Beth allwn ni fel eglwys ei wneud  
yn dilyn y drafodaeth hon?***

## ***Cwestiynau i'w trafod***

### ***Pennod 1: Beth yw efengyl?***

1. Beth fydddech chi'n ei ddweud yw'r 'newyddion da' sydd gan yr eglwys i'w rhannu?
2. Pe byddai rhywun yn gofyn beth mae Iesu Grist yn ei olygu i chi, sut fydddech chi'n ateb?
3. Gallwch chi feddwl am enghraifft ddiweddar ble mae eich capel chi wedi mynd â'r efengyl allan i'r gymuned?
4. Ydy bywyd ac addoliad eich capel yn llwyddo i gwrdd â phobl ble maen nhw?
5. Fydddech chi'n cytuno bod yna swildod i sôn am Iesu tu fas i'r capel? Beth sy'n gyfrifol am hynny?
6. Sut all ein bywydau ni gyflwyno Iesu?

### ***Pennod 2: Efengylu yng Nghymru heddiw***

1. Pa werth sydd i bresenoldeb Cristnogol e.e. Cyngor Ysgolion Sul/CYTÛN mewn eisteddfod neu ŵyl genedlaethol arall? Ydy presenoldeb ynddo'i hun yn efengylu neu oes angen mwy na hynny?
2. 'Mae cenhedlaeth o Gymry Cymraeg yn codi sydd heb unrhyw syniad o'r grefydd Gristnogol.' Trafodwch.
3. Fydddech chi'n cytuno fod yna ddulliau efengylu sy'n gwneud cam â phobl ac sy'n dibynnu ar greu ofn? Sut mae efengylu mewn ffordd gariadus yn ogystal â pharchu safbwyntiau pobl?
4. Oes lle i efengylu mewn cymdeithas aml-ffydd?
5. Gallwch chi feddwl am enghreifftiau lle bu cysylltiad personol yn gyfle i rannu eich ffydd?
6. Ydy'ch capel chi wedi cynnal digwyddiad(au) seciwlar neu sydd ddim yn grefyddol er mwyn cyflwyno'r ffydd Gristnogol? Pa mor llwyddiannus fuon nhw?

### ***Pennod 3: Yr Her wrth efengylu***

1. Beth gredwch chi yw'r her fwyaf wrth efengylu yng Nghymru heddiw?
2. 'Mae'n rhaid i ni geisio gwneud i bobl deimlo'n gyffyrddus yn ein cwmni ni.' I ba raddau y mae hynny'n wir am yr hyn sy'n digwydd yn eich capel chi? Pa mor gyfforddus fyddai pobl, nad ydyn nhw'n arfer dod i'r capel, yn teimlo yn yr oedfa fore Sul?
3. Oes rhywun wedi gofyn i chi pam ydych chi'n Gristion? Beth oedd eich ymateb chi? Os nad oes neb wedi gofyn i chi gallwch chi feddwl pam?
4. Sut mai pobl eich cymuned/tref/pentref chi yn gweld eich capel?
5. Gallwch chi feddwl am enghraifft lle mae eich capel chi wedi dangos yn glir beth mae'n sefyll drosto? Beth oedd ymateb y gymuned?
6. Ai diffyg ffydd yn Nuw sy'n gyfrifol am yr amharodrwydd i efengylu?

### ***Pennod 4: Dulliau o efengylu***

1. Ydy'ch capel chi wedi gweithio gyda phobl ar yr ymylon? Sut brofiad oedd ef a beth ddysgoch chi ohono?
2. Pa mor bwysig yw rhannu profiadau? Oes digon o le yn cael ei rhoi i hynny ddigwydd yn addoliad eich capel?
3. Sut mae eich capel chi yn dangos cariad Crist yn ymarferol?
4. 'Mae pethau drwg yn siŵr o ddigwydd ond mae ffordd o'u dehongli nhw drwy ein ffydd yn Nuw ac Iesu.' Cytuno?
5. Bydddech chi'n cytuno bod pobl tu fas ddim bob amser yn deall beth ry'm ni'n trio dweud wrthynt? Os felly pam?
6. 'Mae bod yn eglwys ddiadeilad wedi'n galluogi ni i wneud rhywbeth gwahanol.' Ydych chi'n credu bod yr adeiladau yn gallu bod yn rhwystr i efengylu?
7. Ydy addoliad eich capel yn eich helpu i ateb y cwestiwn: 'Pwy yw Duw i mi?'